

## Cymdeithas deiniolen

Cynhelir cyfarfod rheolaidd olaf tymor Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Mawrth 25. Testun sgwrs Mr Rhys Jones, Waunfawr fydd 'Y Gog'.

Nos Lun, Ebrill 29 bydd Swper Blyneddol y Gymdeithas yng Nghlwb Golf Caernarfon. A wnaiff pawb sy'n dod i'r Swper ddychwelyd y fwydlen i Glyn Gruffudd erbyn nos Lun gan nodi eich dewis o fwyd arni wrth gwrs.

Diolch yn fawr am gefnogaeth pawb yn ystod y flwyddyn, a diolch yn arbennig i Glyn am ei holl waith trefnu.

## Rhowch wybod

Er na roddir enwau cleifion yn *Gronyn* erbyn hyn byddwn yn falch iawn o gael gwybod gennych pwy sydd yn yr ysbyty er mwyn medru ymweld â hwy yn enw'r eglwysi. Felly, os gwyddoch am aelodau sydd yn yr ysbyty a wnewch chi roi gwybod i'r Gweinidog os gwelwch yn dda.

Mae'r rhif ffôn i'w weld yn y panel ar ochr chwith y dudalen hon.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Oedfaon yn Nhŷ Elidir

##### Mawrth 31

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams

##### Ebrill 7

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 14

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

#### Yn Nhŷ Elidir

**Dydd Sul, Mawrth 31:** Gwasanaethir am 5.00 gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

### CAPEL COCH A REHOBOTH, A NANT PADARN

**Dydd Sul, Mawrth 31:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

### CARMEL

**Dydd Llun, Mawrth 25:** Te Bach yn y Ffestri a'r elw i Morgan Hughes.

**Nos Wener, Mawrth 29:** Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 31:** Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor Williams.

### BETHLEHEM

**Nos Fercher, Mawrth 27:** Noson Goffi er budd Apel Madagascar yn y festri am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 31:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Mawrth 31

10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan

11.15 a.m. - Ysgol Sul

#### Ebrill 7

10.00 a.m. - Y Parchg Glenys Jones

11.15 a.m. - Ysgol Sul

#### Ebrill 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r  
Llechen Las

Rhif 792  
24 Mawrth, 2019  
**Gronyn**

## Ar ein telerau ni


'£350miliwn i'r Gwasanaeth Iechyd bob wythnos'; 'Cael ein gwlad yn ôl'; dyna i chi ddau o sloganau mwyaf pleidwyr Brexit cyn y Refferendwm yn 2016. Un arall oedd 'Cipio rheolaeth yn ôl'. 'Take back control' oedd y gri. Roedd pobl Prydain, meddid, wedi blino ar griw anetholedig yr Undeb Ewropeaidd yn rheoli pob dim, ac roedd yn bryd i Brydeinwyr fedru eu rheoli eu hunain eto.

Y drwg, o safbwynt pleidwyr Brexit, oedd bod gan y wladwriaeth Brydeinig ei ffordd ei hun o lywodraethu. Ac wedi'r holl gwyno am bobl anetholedig yr Undeb Ewropeaidd, yr eironi mawr yw mai'r bobl sydd dan y lach erbyn hyn yw ein cynrychiolwyr etholedig yn San Steffan. 'Cipio rheolaeth yn ôl' oedd y nod. Fe gafwyd Refferendwm, do; ond roedd pawb yn gwybod mai cyfrifoldeb yr Aelodau Seneddol, y bobl a etholwyd, fyddai rhoi trefn ar bethau. Nhw fyddai'n gorfod mynd i'r afael â'r holl broses o drefnu gadael yr Undeb Ewropeaidd gan mai trwy ei senedd y mae'r Wladwriaeth Brydeinig yn ei rheoli ei hun. Nid trwy gyfraith y dorf neu 'mob rule'; nid trwy'r papurau newydd na'r teledu na'r radio; nid trwy'r cyfryngau cymdeithasol ond trwy gynrychiolwyr etholedig y mae'n rhoi trefn ar bethau. Dyna'r union beth y bu miliynau yn galw amdano: cael rheoli pethau yn *ein ffordd ni*, a hynny trwy bobl a etholwyd. Mae gan y bobl a etholwyd wahanol safbwyntiau, a beth bynnag eich barn am Brexit, yr hyn a welir – er gwell, er gwaeth – yw

trefn wleidyddol ddemocrataidd gwladwriaeth Prydain (â'i gwendidau a'i chryfderau a'i hodrwydd hynafol) ar waith. Ac mae'n gas gan gefnogwyr Brexit hynny. Mae hyd yn oed y Prif Weinidog yn gandryll efo'i chyd-aelodau seneddol am iddynt fynnu gwneud eu gwaith. Rhyfedd o fyd.

Gallwn ninnau fod yn fodlon â phethau nes i ni weld eu bod yn anghyfleus. Gallwn fod yn frwd o blaid pethau, ond bod hynny ar ein telerau ni ein hunain. Y mae Duw yn iawn nes i ni sylweddoli ei fod yn mynnu'r lle cyntaf yn ein bywydau. Mae Iesu Grist yn ddigon derbyniol nes i ni ddeall ei fod yn mynnu ein cariad a'n hufudd-dod llawn. Mae'r Eglwys yn ddigon pwysig nes i ni weld na ellir ei chyfyngu hi na'i gwaith i ryw gornel fechan o'n bywydau. Mae'r Efengyl yn dda nes i ni gael ein hargyhoeddi mai pechaduriaid sydd angen y maddeuant y mae'n ei gynnig ydym.

Mae gennym ein syniadau ein hunain am Dduw a Christ, am yr Efengyl a'r Eglwys a phob math o bethau eraill sy'n gysylltiedig â'r Ffydd Gristnogol. Yr ydym yn gyfforddus cyhyd â bod gennym *ni* reolaeth dros y cyfan, a chyhyd â'n bod *ni ein hunain* yn cael diffinio'r cyfan a phenderfynu pa mor bwysig yw'r pethau hyn. Ond nid yw Duw'n ddarostyngedig i ni. Y mae ganddo ei gyfraith a'i ddisgwyliadau a'i drefn achubol. Mae'n mynnu ein bod yn derbyn hynny, ac yn ildio iddo ac yn ymddiried ynddo.



## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch a Rehoboth (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch, ac yn ystod yr oedfa cawn fod yn dystio i weinyddu sacrament y Bedydd. Estynnwn groeso cynnes i deulu Lois a Jason Jones sy'n cyflwyno eu merch fach Ena i'w bedyddio heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Am 2.00 o'r gloch bydd Oedfa Deulu, a'r addoliad yn seiliedig ar Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr.

## Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at holl aelodau a chyfeillion yr eglwys sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Mae mwy nag un wedi bod yn yr ysbyty yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a gobeithiwn eu bod ryw faint yn well erbyn hyn.

## Balm o Salm



BYW Y BEIBL

\*Yr wyf yn codi fy llygaid atat ti sy'n eistedd yn y nef-oedd. Fel y mae llygaid gweision yn gwyllo llaw eu meistres, felly y mae ein llygaid ninnau yn gwyllo'r ARGLWYDD ein Duw nes iddo drugarhau wrthym. Bydd drugarog wrthym, O ARGLWYDD, bydd drugarog wrthym, oherwydd fe gawsom ddigon o sarhad. Yn rhy hir y cawsom ddigon ar wawd y trahaus ac ar sarhad y beilchion' (Salm 123).

Gweddiwn yn arbennig dros bawb sydd wedi dioddef oherwydd Seiclun Idai a drawodd Mosambique, Zimbabwe a Malawi ychydig dros wythnos yn ôl. Mae'n debyg na wŷr neb eto faint o bobl a laddwyd; oddeutu 700 a gadarnhawyd hyd yma ond mae'n bosibl iawn fod mwy na hynny wedi eu lladd. Mae'n debyg fod dros 1.7 miliwn o bobl wedi dioddef oherwydd y seiclun, trwy golli cartref ac eiddo.

Mae cyfle i bawb gyfrannu at yr apêl a wnaed am arian gan Bwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC) sy'n cynrychioli 14 o elusennau sy'n gweithio ar draws y byd i gynorthwyo cymunedau. Mae modd cyfrannu ar lein, neu dros y ffôn neu trwy'r post. Mae'r lluniau a welsom o'r difrod a wnaed gan y seiclun yn dangos yn glir faint yr angen am gymorth i'r bobl hyn.

## Noson goffi Talybont

Cynhelir Noson Goffi yn festri Capel Bethlehem, Talybont am 6.30 o'r gloch nos Fercher, Mawrth 27, i godi arian at Apel Madagascar Undeb yr Annibynwyr.

Croeso cynnes i bawb i gefnogi ymdrech yr eglwys i gefnogi'r Apêl.

## Te Bach

Yfory, dydd lun, Mawrth 25, cynhelir y Te Bach misol yn Festri Carmel, Llanllechid am 2.30 o'r gloch. Bydd yr arian a godir yn cael ei drosglwyddo i Morgan Hughes sy'n disgwyl trawsblaniad iau am yr eildro.

Dymunwn yn dda i Morgan a'i deulu, gan obeithio y caiff y driniaeth cyn gynted â phosib ac y bydd yn cryfhau ac yn gwella yn fuan. Croeso cynnes i bawb.

## Casgliad y Genhadaeth

Daeth yn bryd unwaith eto i ni wneud y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Gobeithiwn gael y cyfan i law erbyn Sul olaf mis Mawrth.

Cewch roi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Defnyddir yr arian hwn gan Adran y Chwiorydd y Presbyteriaid i gefnogi gwaith cenhadol o fewn yr enwad a gwahanol brosiectau cenhadol a dyngarol yma yng Nghymru a thramor.

## Apêl Madagascar Capel Carmel

Mae aelodau Capel Carmel wedi bod yn brysur yn codi arian at Apêl Madagascar yr Annibynwyr ers mis Medi'r llynedd.

Rhwng Medi a Rhagfyr gwerthwyd peth o waith llaw rhai o'r merched yn 'Siop Madascagar' y Capel.

Rhoddyd elw Te Bach mis Hydref at yr Apêl. Felly hefyd y casgliad a gafwyd yn Oedfa Ddiolchgarwch y Plant a'r Bobl Ifanc y mis hwnnw.

## Crefft, Cân a Stori

Mae Cynllun Efe wedi trefnu bore Crefft, Cân a Stori i blant oed cynradd yn Nhy Elidir yn Neiniolen fore Sadwrn, Ebrill 6, rhwng 10.30 a 12.30 o'r gloch.

Cafwyd bore tebyg yn Llanberis yn yr hydref ac yng Nghaeathro yr wythnos ddiwethaf a gobeithiwn a gweddiwn am fore da yn Neiniolen hefyd. Bydd sesiwn tebyg yn Waufawr yn fuan.

**Bydd angen i oedolion ddod efo'r plant i'r cyfarfod hwn. Gall rhieni neu daid neu nain ddod efo'r plant wrth gwrs.**

Rhowch wybod i deuluoedd am y bore hwn os gwelwch yn dda. Y gobaith yw y bydd yn ddechrau cenhadaeth newydd yn Neiniolen.

Cyn y Nadolig cynhaliodd aelodau Clwb Dwylo Prysus noson gymdeithasol 'Paned a Mins Peis' at yr Apêl.

Trwy'r gweithgareddau uchod codwyd £1,000.

Ers dechrau'r flwyddyn, mae'r ymdrech yn parhau, fel y soniwyd yn Gronyn bythefnos yn ôl pan adroddwyd am Oedfa Gŵyl Ddewi'r Plant a'r Bobl Ifanc. Daeth £400 arall i'r coffrau ers mis Ionawr.

Mae'n amlwg fod aelodau Carmel ynghyd â'r plant a'r bobl ifanc wedi gweithio'n galed i godi'r arian. Diolch am eu holl waith, a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu a chefnogi'r ymdrech.

## CIC

Diolch i Susan am drefnu ar gyfer CIC yn Capel Coch nos Wener. Cawsom noson wahanol i'r arfer gyda 'gorsafodded gweddi' wedi eu gosod ar gyfer y criw ifanc y tro hwn.